YR YMOFYNYDD.

Rhif 76.] RHAGFYR, 1853. [Cyf. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—Gol.

STEPHENS O FERTHYR AR Y NOD CYFRIN A MYVYRYDDIAETH.—Rhan II.

Prif destun y llythyr hwn fydd Menw mab Teirgwaedd; ond cyn ymaflu yn hwnnw, nodaf ychydig o fan feiau Myvyr. Cymmer yn ganiattaol mai temlau yw y Cromlechau a'r Cylchau Cerrig, sydd mor gyffredin yn y wlad hon; ond y mae yn amlwg nad yw hynny wedi ei brofi hyd yma, ac nid yw y gred yna allan o Forganwg, yn rhagor na chan mlwydd oed. Yn nyddiau Vaughan o Hengwrt, George Owen, ac Edward Llwyd, yr oeddent yn cael ei cyfrif yn fynwentydd neu yn feddau, ac y mae pob darganfyddiad yn cadarnhau y tyb hwnnw. Yn Denmark y mae llawer o honynt wedi cael eu hagor, a'u profi yn feddau; (*Worsae's Primæval Antiquities of Denmark.*) Yn Scotland y mae'r un ffeithiau wedi dyfod i'r golwg; (*Wilson's Prehistoric Annals of Scotland.*) Y mae y Doctoriaid Todd a Petrie, yn tystio mai beddau yw Cromlechau Iwerddon. Y mae Captain Meadows Taylor (*Cairns and Cromlechs of the Deccan*), wedi agor rhai ugeiniau o Gromlechau India yn ddiweddar, ac wedi cael Esgyrn dynion, a phenglogau yn y rhan fwyaf o honynt; ac y mae yr un ffeithiau wedi dyfod i'r golwg yn Lloegr, fel y gwelir oddiwrth nodiadau W. J. Thoms ar lyfr y Chevalier Worsae.

Unwaith etto yr wyf yn ardystio yn erbyn derbyniad breuddwydion Myvyr, fel ffeithiau profedig. Dywed, ar awdurdod Colonel Wilford, fod y *Puranas*, neu ffug-chwedlau India, wedi eu hysgrifenu oesoedd diwybod cyn cred; ond, mewn gwirionedd, y mae yr henaf o honynt yn llawer diweddarach na'r *Vedas*, oes pa rai oedd 1100, neu 1200 cyn Crist yn ol Colonel Kennedy;* 1400 neu 1600 c.c. yn ol Ritter,† a 1500 c.c. yn ol Syr Wm. Jones. Yn wir, y mae Hamilton yn gosod *Vyasa*, ysgrifenydd cyntaf y

* Researches into the Nature and Affinity of Hindoo Mythology, by Lieut. Col. Vans Kennedy, p. 494, &c.

† Ritter, Geschichte der Philosophie, tom. I., p. 70, &c.

Vedas, yn yr unfed ganrif ar ddeg o oed Crist; ac y mae Prof. H. H. Wilson, yr awdurdod pennaf yn Ewrop ar hynafiaethau India, yn dweud nad yw y *Vishnu Purana* yn henach na chanol y ddegfed ganrif o.c.* Etto y mae Myvyr yn dweud i'r duwiesau *Suruswatee* a *Lukshmee*, ddyfod o'r Ynys Wen, yr hon, medd efe, yn ddiawdurdod, yw Ynys Prydain; ond erbyn chwilio, y mae'r Ynys Wen yn troi yn *water lily*.† Ond y cyfeiliornad mwyaf a wna fy ngwrthwynebydd, sydd mewn cyssylltiad â *Llyfr Menw*, ac y mae ei olygiadau ar y pen hwnnw yn enghraifft teg o'i wybodaeth ddwyreiniol. Dywed—

"*Llyfr Menw* y geilw yr Indiaid eu Beibl: felly *Llyfr Menw* oedd hen Feibl y Cymry hefyd; ac y mae hwnnw yn awr yn fy meddiant i; a digon o brofion, mai efe, yn ddigymhariaeth, yw y llyfr henaf yn y byd; a'i fod wedi ei gerfio y waith gyntaf oesoedd diwybod cyn Moses. Rhaid cyfaddef yr ymddengys hyn fel haeriad anwireddus; ond tystiaf ar fy ngair Bardd, ei fod yn berffaith wirionedd." (*Ymofynydd Gorph.* tud. 167, *col.* 2.) Nid yw yn eithaf eglur pa un ai "Llyfr Menw yr India," neu "Lyfr Menw y Cymry," sydd gan Myvyr; ond *gan na fu un Llyfr Menw erioed gan y Cymry*, y mae yn bur debyg mae y llyfr sydd yn ei feddiant, os oes ganddo ryw un, yw yr "*Institutes of Hindoo Law, or the Ordinances of Menu*," a gyfieithwyd gan Syr Wm. Jones, ac a argraffwyd gyntaf yn 1794, yn Calcutta, ac wedi hynny yn Llundain yn 1796, a'r drydydd waith yn y 3edd gyfrol o weithiau Syr Wm. Jones. Cyhoeddwyd argraffiad arall yn 1825, gan Syr G. C. Haughton, yn Llundain; ac argraffwyd y gwreiddiol yn Calcutta yn 1813; ond os tystia Myvyr mai hwn yw y llyfr henaf yn y byd, tystia mor noethed anwiredd a dystiwyd erioed ar wyneb daear.

Dywedais eisioes mai y *Vedas* yw y llyfrau henaf yn India, ac y mae'r amser y cyfansoddwyd hwy yn cael ei enwi, y "cyfnod cyntaf o lenyddiaeth India." Yn awr y mae Syr Wm. Jones yn priodoli cyfreithiau Menu i'r *ail gyfnod* (*the second period of Indian literature*), sef oddeutu c.c. 885; a chan fy mod yn cyfrif Syr Wm. Jones yn well awdurdod na Ieuan Myvyr, y mae yn anhawdd gennyf ei gredu, hyd yn nod ar ei air Bardd, os yw hynny yn rhyw brawf ychwanegol, ac yn ei wneud ef yn gallach ac yn fwy dysgedig nac y byddai hebddo.

Ond ymhellach, y mae Ritter yn amheu cywirdeb Syr W. Jones, yn gwadu fod y llyfr mor hyned a 885 c.c., ac yn cadarnhau ei olygiadau trwy brofion mewnol ac allanol. Y mae llyfr Menw yn cynnwys dyfyniadau o'r *Vedas*, y *Puranas*, y *Vendangas*, a'r *Sastras*, ac yn cynnwys *glossary* neu eiriadur, i egluro y *Vedas*, iaith pa rai oedd mor hyned ac annealladwy pan ysgrifenwyd Llyfr Menw, nes yr oedd yn anghenrheidiol i gyfansoddi geiriadur i'w heglurhau! "Beth a ddywedem," (gofyna Ritter) "pe bai hynafiaeth uchel yn cael ei briodoli i ysgrifenydd Groegaidd a ddyfynai draethodau mor ddysgedig?"‡ A pheth a ddywedwn am Ieuan Myvyr, yr hwn ar ei air bardd, a haera fod y dyfyniad yn henach na'r llyfr a ddyfynir, a bod yr egluryn yn henach na'r traethodau goreu a eglurheir ganddo?

Ymhellach, y mae Llyfr Menw yn gofyn i'r Brahman ddarllen y *Vedas* yn

* Asiatic Journal, 1825, p. 458.

† Ward's View of the History, Literature, and Religion of the Hindoos, vol. i. p. 169 and 172.

‡ Geschichte der Philosophie, tom. i., 78.

ddibaid (iii. 180), yn pennodi'r amser i ddarllen y gwahanol rannau, ac yn dweud y dylai y Brahman bob amser gael ei weled a'i ffon yn un llaw a chyfrol o'r Vedas yn y llall. Hynny yw, y mae'r llyfr *henaf* yn y byd yn cynghori'r Brahminiaid i ddarllen llyfr *henach*; a'r dyn cyntaf yn rhoddi cynghorion a chyfreithiau i ddynion oedd yn y byd o'i flaen! "Mawr yw Diana'r Ephesiaid!"—mawr yw anghysondeb Myvyryddiaeth!

Cymmaint a hyna am y Llyfr henaf yn y byd, a'i oesoedd diwybod cyn amser Moses; ac nid oes achos dweud ychwaneg i brofi fod Myvyr yn dra byrbwyll, pan y cymmerodd arno fod yn ddysgawdwr Hindooaidd.

Awgrymais eisioes nad wyf yn ystyried fod Bardd air Myvyr yn sancteiddio un camhaeriad, nac yn cywirio un anghywirdeb; ond tra barnaf ei fod mor gyfeiliornus ac y bu dyn erioed, credaf oddiwrth yr hyn oll a wybuwyf am dano ei fod yn eithaf cydwybodol yn yr hyn a broffesa. Y mae ei ffaeleddau yn tarddu oddiar anwybodaeth a diffyg chwaeth beirniadol, ac nid oddiar un anfoesoldeb; a'i anffawd ef yw ei fod yn analluog i ddirnad y gwahaniaeth rhwng hen a ddiweddar—rhwng dychymyg a gwirionedd—rhwng haeriadau disail â ffeithiau hanesyddol. Y mae ei rhith-ddysgeidiaeth yn awr wedi ei ddynoethi; a bydd y darllenydd yn alluog i ffurfio ei farn ei hun.

Pan fo Myvyr yn ymffrostio cymmaint am lyfr sydd mor agored i bawb ereill ac iddo ef, gellir ffurfio barn, nid anghywir, ynghylch sylwedd ei fost am ei gyfrinion. Hyd yma, nid yw wedi dangos un mymryn o wybodaeth nad yw o fewn cyrhaedd pob dyn a ddewis droi ei sylw at bethau cyffelyb. Am Lyfr Menw, darllener yr erthigl *Manu* yn y *Penny Cyclopedia*; ac yna ymhen hanner awr bydd y darllenydd yn llawer mwy dysgedig na Myvyr ei hun; ac am y cyfrinion, hyn ynghlust y darllenydd, y mae ffynonau gwybodaeth yn llawn mor agored iddo ef ac i'r Bardd Cyfrin. Nid oes a fynno gwybodaeth a chyfrinion; ac nid oes a fynnwyf i ac un gwybodaeth na ellir ei ddangos yngwyneb haul a llygad goleuni. Am bob haeriad a wneir gennyf, yr wyf yn barod i ddangos y gyfrol a'r tudalen i bwy bynag a ddymuna chwilio a barnu yn gydwybodol—ac yn neillduol i Ieuan Myvyr, deued pan y del.

Y mae wyth Manu yn perthyn i lenyddiaeth India, er nad oedd mab Teirgwaedd yn un o honynt, sef, Manu y cyntaf, a'r saith Manu a genhedlwyd ganddo; a chyn y deallir yn iawn y llaesder gyda pha un y defnyddir yr enw, bydd yn ofynol imi sylwi nad yw y gair Manu, o anghenrheidrwydd, yn enw personol. Ei ystyr yw, "rhesymol," oddiwrth *Man*, i ddeall; ac yn yr ystyr yna y mae ini ddeall y gair *Manu*, pan y defnyddir ef i ddynodi y dyn cyntaf, sef, yr hanfod rhesymol cyntaf, a thad y *Manavas*, sef, yr hil ddynol, yr hanfodolion rhesymol.* Gan hynny, ar y golwg cyntaf, yr oedd y Manu blaenaf, fel y dywed Myvyr, yn atteb i Adda yr Iuddewon; ond y mae yn groes i bob rheswm i ni gredu y buasai yn anghenrheidiol i'r Adda hwn gyfansoddi corff o gyfreithiau helaeth a manol, a chyfattebol i gyflwr cymdeithasol a gwaraidd o radd uchel iawn; ac yr ydym yn gwybod nad yw cyfreithiau Menu yn meddu un hynafiaeth o'r fath; ac mewn gwirionedd, y mae Menu yr Hindooaid, yn perthyn i AIL boblogiad y byd, ac yn cyfatteb i Noah y genedl Iuddewig, fel yr ymddengys oddiwrth hanes y diluw † yn

* Penny Cyclopedia, Art. MANU.

† "The Indian tradition of the Deluge of Manu, the Noah of the Book of Genesis." Talboy's Account of Sanscrit Literature, p. 145. Gwel weithiau Sir William Jones, am

y Bryddest Sanscritaidd a elwir y *MahaBarata*. Ymae yn hollol anmhossibl i ni gredu y gallasai Adda yr Iuddewon fod yr un person a Menes yr Aipht, yr hwn yn ol yr holl ddarganfyddiadau diweddar o eiddo Bunsen, Lepsius, ac ereill, a deyrnasodd oddeutu 2000 cyn Crist; ond nid oes cymmaint o anhawsder amserol rhwng Menu y diluw a'r Menes hwn; etto, nid yw y tebygolrwydd yn yr enw yn un prawf o undeb personol, mwy nag ydyw y tebygolrwydd rhwng enwau Ieuan Brydydd Hir, Ieuan Glan Geirionydd, a Ieuan Myvyr, fel y gwelir yn ol llaw.

Yn ei drydedd lythyr, dywed ei fod wedi profi mai yr un person yw Menu, Menes, a Menw mab Teirgwaedd; ac os yr un person yw Myvyr, Glan Geirionydd, a'r Prydydd Hir, y mae wedi profi ei bwnc, gan mai yr un prawf sydd am y ddau osodiad. Nid yw yn ofynol i mi brofi fod y tri enw olaf yn dynodi tri pherson gwahanol; a chyn y darfyddwyf, bydd yn amlwg i bawb nad yw ein Menw ni yn perthyn o fewn i'r filfed ach i un o'r lleill. Ond yn flaenaf, ychydig o enghreifftiau i ddangos y twyll-resymeg.

Wele'r gosodiad:—Y mae'r enwau Menu, Menes, a Menw, yn debyg i'w gilydd, ac y mae yr un pethau yn cael eu priodoli iddynt—*o ganlyniad yr un oeddent.* O'r goreu: Yr oedd Dafydd o frenin yn Judea, Dafydd o frenin yn Scotland, a Dafydd o frenin yn Nghymru; o ganlyniad yr un oeddent. Yr oedd Solomon ym mhlith yr Iuddewon, yn hynod am ei rwysg a'i ddoethineb; y mae pawb wedi clywed am y gwron—

> Solomon fwyn,
> (A) gollodd ei drwyn,
> Ac oll er mwyn—
> Anrhydedd.

Ac y mae gyda ni hen gyfaill cyfoethog o'r enw Solomon Bloom: Yn awr y mae yn brofadwy mai Iuddewon oedd ac yw y cyntaf a'r trydydd, ac y mae huppynt yr ail, a chaniadau y cyntaf yn profi yn ddiamheuaeth mai beirdd oedd y ddau; o ganlyniad yr un oeddent. Yr oedd ac y mae Dewi Sant, Dewi (o Gastell Hywel) bardd Telyn Dewi, a Dewi Essyllt, yr un mewn gwaed Cymraeg, ac mewn enw, a'r ddau olafmewn barddoniaeth; o ganlyniad yr un oeddent. Yr oedd Ifor Hael, fe fu Ifor Ceri, ac y mae Ifor Cwm Gwys, oll yn noddwyr yr awen; ac o ganlyniad yr un oeddent. Yr oedd Ioan Efangylwr, bu Ioan Meirion, y mae John Rees, oll yn enwog fel traethodwyr; o ganlyniad nid tri ydynt ond un. Yr oedd prophwyd o'r enw Nathan, a dyn crefyddol o'r enw Nathaniel, a phwy a wad fod Nathan Dyfed yn un o'r prophwydi, pan y saif bennoeth, droednoeth, mewn perygl o anwyd, ar y Maen Chwyf! O ganlyniad un person oedd ac yw y tri! "Digon, digon," medd rhyw hen gyfaill, yr ydym yn gwybod erbyn hyn, mai "nid aur yw pob peth melyn."

Etto, cyn myned yn y blaen, cymmeraf un golwg arall ar y mater yma, gan fod y twyll-rhesymeg hwn, sef, twyll-rhesymeg y golwg cyntaf, neu, *The fallacy of simple inspection*, fel ei gelwir ef gan Mill, yn glynu yn rhyfedd wrth ein cyd-genedl. Sylwodd Shakespeare ar y ffaeledd dri chan mlynedd yn ol, fel y bydd yn hysbys, pan y nodwyf y ffaith fod y Cymro *Fluellen*, neu Llywelyn, yn ymdrechu profi fod Macedonia a Mynwy yn debyg i'w

gyfieithiad o hanes y diluw; neu gyfieithiad Bopp yn yr Ellmynaeg, neu y Quarterly Review, cyf. xlv. tud. 25. Ond rhag fod y llyfrau hyn tuhwnt i gyrhaedd y Cymro uniaith, danfonaf gyfieithiad o hono gyda'r llythyr hwn. Gwel "Hanes y Pysgodyn."

gilydd, *o herwydd* fod afon ym mhob un o'r ddwy wlad, ac eogaid *(salmons)* ym mhob un o'r ddwy afon, (*Henry V., Act.* 4, *scene* 5.); ac y mae y twyllrhesymeg hyn mewn defnydd beunyddiol yn ein plith yn awr. Cynghoraf fy nghydwladwyr ieuanc i ddarllen *Logic* Whately, neu os o fewn cyrhaedd waith John. S. Mill ar yr un testun, er mwyn diosg eu hunain o'r ffaeledd hwn; ond gan fod yr athraw Myvyr yn cyfrif ei hun yn rhydd oddiwrth wendidau o'r fath, ni fyddai ond gwastraff cynghor i ddweud dim o'r fath wrth y dysgawdwr hwnnw.

Gwelir yn ebrwydd fod yr un dull o resymu yn rhedeg trwy yr holl enghreifftiau rhagflaenol. Y maent yn cymmeryd yn ganniattaol nad oes dau ddyn mewn bodoliaeth wedi derbyn yr un enw; ond yr ydym yn gwybod fod rhagor nag un Dafydd, Dewi, Nathan, Ifor, Ioan, Ieuan, a Solomon, wedi bod; ac o ganlyniad yr ydym yn anfoddlon i ystyried fod Myvyr wedi profi ei bwnc; gan fod y tebygolrwydd yn ei erbyn yn hytrach nac o'i blaid. Profaf innau yn y man nesaf, nid yn unig fod rhagor nag un Menw wedi bod, ond *fod Menw mab Teirgwaedd yn berson hollol wahanol oddiwrth Menes yr Aipht a Menu yr India, a bod yr enw hwn, sef, Menw, yn eithaf cyffredin mewn rhan o'r ynysoedd Prydeinig hyd y dydd heddyw.* Y mae wedi ei brofi eisioes, fod rhagor nag un Menw wedi bod; a bydd y sylwadau canlynol yn cadarnhau y gosodiad; ond ein prif bynciau fydd y ddau olaf.

I. Yr oedd Menw mab Teirgwaedd yn berson gwahanol oddiwrth Menu yr India. Sonir am dano mewn amryw ysgrifau Cymreig, sef—

1. Mabinogi Kilhwch ag Olwen;
2. Cywyddau Dafydd ab Gwilym;
3. Y Trioedd;
4. Englynion y Gorugau; Y Iolo MSS.; Coelbren y Beirdd.

Rhestraf yr ysgrifau yn ol eu hoed. Mabinogi Kilhwch, yn ol fy marn i, yw yr henaf; a dangosaf fy rhesymau am hynny yn uniongyrchol, ar ol desgrifio ansawdd y cyfansoddiad. Yr oedd Kilhwch yn fab i Kilydd Kelyddon ab Caw o Gwm Cawlwyd, ac o ganlyniad yr oedd yn nai i Aneurin ab Caw, Bardd y Gododin, ac yn frawd i Tudvwlch ab Kilydd, un o'r gwroniaid Prydeinig ym mrwydr Cattraeth, o.c. 603. Yr oedd yn ymofyn gwraig oddiwrth dadynghyfraith anfoddlon, ac i'r perwyl hynny aeth tua llys y Brenin Arthur, yn Ngelliwig, yn ngwlad Cerniw, sef *Cornwall*, a gofynai gynnorthwy y brenin, yr hwn hefyd oedd yn ewythr iddo, ac oddeutu ddau cant o'i farchogion, sef prif enwogion Prydain yn y chwechfed ganrif, *enwau pa rai a roddir;* ac yn mhlith enwau marchogion y Brenin Arthur—yr hwn a fu farw yn 537* o.c.—y mae "Menw mab Teirgwaed" (tud. 205), ac "Annyanniawc. m. Menw. m. Teirgwaed" (tud. 206). Wele, Adda wedi disgyn i'r chwechfed ganrif o oed Crist, a'r Dyn (neu Manu) cyntaf, *"yr hwn oedd yn bodoli miliynau o flynyddoedd yn ol (Ymofynydd* Gorph.), yn un o farchogion y Brenin Arthur!

Yn awr, pa mor hyned yw yr ysgrif hyn. Gwelir fod *k* yn lle *c* yn nechreuad y geiriau, a bod *dd* yn anadnabyddus; ac wrth y nodau hyn yr ydym yn gwybod i Mabinogi Kilhwch gael ei ysgrifenu oddeutu 1200 o.c.†; ac y mae cyfeiriad at y chwedl gan Gynddelw Brydydd Mawr, yn profi y gosod-

* "A.D. 537. Gweith Camlann, in qua Arthur et Medraut corruere." *Annales Cambriæ*, yn argraffedig yn y Monumenta Historia Britannica, tud. 830.

† Gwel Lhwyd Arch. Britt. 227, col. i., ar y llythyren D. mewn hen ysgrifau; a 228, col. i., ar K.

iad.* Wele, gan hyny, ysgrif o'r 12fed ganrif, yn traethu mai un o farchogion Arthur oedd Menw mab Teirgwaedd; ac y mae yn gofyn prawf cadarn i wrthsefyll awdurdod mor gredadwy; ond tybia Myvyr fod ganddo atteb digonol, yn y dywediad mai nid Arthur Caerlleon oedd Arthnr y Mabinogion, ond y gwr a roddodd ei enw i "Delyn Arthur" yn yr wybren, "cyfnod yr hwn oedd yn oesoedd boreuol y byd." Yn awr y mae yn dra anffodus i Myvyr, na all wneud un haeriad mewn perthynas i hynafiaeth y Cymry heb ddangos dyfnder ei anwybodaeth. Pa brawf sydd fod rhagor nag un Arthur yn adnabyddus i'r hen Gymry? Nid oes yr un. Y mae'r enw "Telyn Arthur" yn ddiweddarach nag amser y Rhufeiniaid ym Mhrydain, gan mai cyfieithiad o *Lyra*, yr enw Rhufeinig, yw yr enw Cymreig; nid yw yr enw "Telyn Arthur" mewn un hen gyfansoddiad a wn i am dano: ac nid oes genym un amheuaeth yn y byd, nad yw yr enw yn gymmaint a chwe' chant oed. Os amgen, gosoded Myvyr ei fys ar y prawf.

Yn Ail, Am Arthur Caerlleon. *Ni fu Caerlleon yn gartrefle i Arthur erioed;* ac nid oes un crybwylliad o'r fath i'w gael yn un lle ond yn hanes gelwyddog Sieffre o Fynwy, a chwedlau diweddar Beirdd Morganwg. Yn y 12fed ganrif, nid oedd neb yn credu hynny, tu faes i Forganwg, fel y mae yn amlwg oddiwrth weithiau Beirdd yr oes honno; ond gan fod y Prof. Rees wedi dangos hynny eisioes,† a minnan wedi traethu yn helaeth ar yr un pwnc yn y bennod ar y *Mabinogion*, yn y *Lit. of the Kymry*, nid oes achos manylu.

Yn ngwyneb Myvyr, dywedaf mai Arthur, Brenin Cernyw, yr hwn wedi hynny, tua chanol y 12fed ganrif, a enwyd gan feirdd Morganwg a Sieffre, yn Amherawdwr Caerlleon ar Wysg, ac a roddodd ei enw i Delyn Arthur, a chant o enwau Arthurol ereill—oedd y person mewn golwg gan ysgrifenydd hanes Kilhwch ag Olwen; ac nid oes achos am amheuaeth ar y pen hynny, gan y dywedir yn y chwedl ei hun—"Ac odyno yd aeth Arthur y ymeneiniaw ac y vwrw y ludet y arnaw *hyt y-gkelli-wic y-gkerniw*," (tudal. 246). Ond fel na fyddo y dymchweliad o haeriad Myvyr yn unrhyw fodd yn amherffaith, dyfynaf enwau ugain o'r dau cant a enwir fel marchogion Arthur, ac fel enwogion benywaidd a gwrrywaidd yr oes honno; sef—

1. Kynnwyl Sant
2. Sandde Bryt Angel } Y tri gwr a ddiangasant o'r gad Gamlan, O.C. 537.
3. Morvran mab Tegid
4. Teleesin pennbeirdd—Yr oedd hwn yn byw rhwng 560 a 600.
5. Gildas mab Kaw—Bu farw yn 570 o.c. ‡
6. Morvudd merch Urien Rheged—Bu Urien farw yn 584.
7. Morcant Hael, sef, Morgan Mwynfawr o Forganwg.
8. Dunawd mab Pabo—Bu farw yn 595. §
9. Sawyl Benuchel—Ei Frawd.
10. Rhuvawn Bevyr—Lladdwyd yn Nghattraeth, yn 603.
11. Manawyddan mab Llyr— " "

* Gwel Myv. Arch. i. 208; neu, The Literature of the Kymry, p. 133.

† "From a comparison of the most ancient authorities extant upon the subject, including the oldest of the Welsh remains, it may be collected that Arthur was a native of Devon, or Cornwall; and that his connexion with the Cymry of Wales and North Britain, was almost entirely of an intrusive kind."—Welsh Saints, 184.

‡ A.D. 565 Navigatio Gildœ in Hibernia. A.D. 570 Gildas Obiit.—Annales Cambriæ.

§ "A.D. 595. Dunaut rex moritur."

12. Eurneid merch Kynon ab Klydno—Bu farw yn 603.
13. Maelwys mab Baeddan—Un o enwogion Cattraeth.
14. Gwrhir Gwalstawd Ieithoedd—Bardd Escob Teilo o.c. 606.*
15. Cas mab Saidi—Un o wronaid y Gododin.
16. Hueil mab Caw—Brawd hynaf Gildas ac Aneurin.
17. Kynddillig Kyvarwydd—Enwir ef yn y Gododin.
18. "Dyvynwal Moel."
19. "Annyanniawc mab Menw mab Teirgwaed"!!
20. "Menw mab Teirgwaed"!!!

Wele ugain o enwau personau oeddynt yn gyfoeswyr; am 17 o honynt gellir dweud yn awdurdodol eu bod yn byw ynghylch y 6fed ganrif, ac am rai o honynt yr ydym yn gwybod y flwyddyn neillduol y buont farw, neu y gwnaethant eu hunain yn enwog; ac y mae awdurdod yr ysgrif yn llawn mor gadarn yn achos y tri olaf, ac y mae yn achos y 17 cyntaf. Ymhellach, cefais fod yr ysgrif yn rhyfedd o gywir ym mhob achos ac y gellais ei phrofi trwy awdurdodau ereill; ac nid oes gennyf yr amheuaeth lleiaf, nad yw yn eithaf cywir yn y dywediad fod Menw mab Teirgwaedd, a Dyfynwal Moelmud, yn byw yn y 6ed ganrif o o.c.

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

EGLWYS GROEG.

Mr. Ymofynydd.—Gan fod sefyllfa bresenol Rwssia a Thwrci yn tynu sylw yr holl fyd braidd; a chan fod llawer yn credu mai rhyfel rhwng gwir grefydd ag *infideliaeth*, yw yr un sydd wedi dechreu; ac felly yn dymuno llwyddiant yr hen Czar ar y Sultan, druan; efallai na welwch yn anghymwys roddi lle i'r hanes canlynol yn nghylch Eglwys Groeg, neu Eglwys y Dwyrain, fel ei gelwir.

Fe ellir rhannu Eglwys Groeg i dair rhan. Y gyntaf yw yr un sydd yn cyttuno ymhob pwngc o athrawiaeth ac addoliad a phatriarch Constantinople, ac yn gwrthod uwchafiaeth y Pab o Rufain. Y mae'r ail ran yn cynwys y Crist'nogion hynny, y rhai ydynt yn gwahaniaethu yr un cymaint oddiwrth y Pab a'r Patriarch yn eu daliadau a'u sefydliadau crefyddol, a'r rhai ynt yn byw dan lywodraeth eu hesgobion a'u llywodraethwyr eu hunain. Y mae'r trydydd yn gynwysedig o'r cyfryw ag ydynt yn ddarostyngedig i'r Pab.

Y mae y rhan honno ag sydd dan lywodraeth Patriarch Constantinople, yn cael ei rhannu, megis yn oesoedd boreu y Grefydd Gristnogol, i bedair talaith fawr—Constantinople, Alexandria, Antioch, a Jerusalem; dros bob un o'r rhai'n y mae esgob yn llywodraethu, dan y titl Patriarch, ar yr hwn y mae yr îs-esgobion a'r mynachod yn edrych fel eu tad cyffredinol. Gan y prelad hwn y mae'r awdurdod i enwi patriarchaid ereill.

Y mae llywodraeth patriarch Constantinople yn helaeth iawn, yn cynnwys rhan fawr o wlad Groeg, ynysoedd Groeg, Walachia, Moldavia, a llawer o'r taleithiau yn Ewrop ac Asia, sydd dan awdurdod y Twrciaid.

Ond yr hyn sydd a fynnom ni yn neillduol ag ef yw daliadau crefyddol Eglwys Groeg, dan lywodraeth Rwssia, gan mai rhyfel crefyddol ellir ystyried yr hwn sydd wedi neu ar ddechreu. Gweler oddiwrth yr hyn a ganlyn nad oes fawr gwahaniaeth rhyngddi ag Eglwys Rhufain yn ei golygiadau crefyddol, ac felly nad oes gwahaniaeth ar dir gwir grefydd o bwy du y try'r fyddugoliaeth.

* "A.D. 601. David Menevensis Archiepiscopus in Domino quievit." Wedi marw Dewi Sant yn 601, canlynwyd ef yn esgobaeth y Deheudir gan Cynog, esgob Llanbadarn, am yr hwn y dywedir, "A.D. 606. Dispositio Cinauc Episcopi." Ac wedi marw Cynog yn 606, canlynwyd ef gan Teilo. Yr Annales Cambriæ yw yr unig gronicl credadwy am hanes y Cymry yn y chwechfed ganrif.

Y mae'r Groegiaid yn addef yr Ysgrythyrau fel rheol eu ffydd, ynghyd â phenderfyniadau y *saith* cymanfa gyffredinol; ond *nid oes gan un person neillduol hawl i egluro nac iddo ei hun nac i ereill eiriau'r Ysgrythyr na phenderfyniadau'r cymanfaoedd hyn; y patriarch a'i frodyr yw yr unig rai awdurdodedig* i chwilio'r oraclau hyn a datgan eu meddwl. Felly nid gwell fod yr Ysgrythyr yn rheol ffydd na pheidio.

Gyda golwg ar athrawiaeth Eglwys Groeg, yr ydym eisioes wedi sylwi ei bod wedi ei thynu mewn rhan o'r saith Cymanfa Gyffredinol, sef, Cymanfa Nicea, yn y flwyddyn 325; Cymanfa gyntaf Constantinople yn 431; Cymanfa Calcedon yn 451; ail Gymanfa Constantinople yn 455; y drydydd etto yn 680; a'r ail o Nicea yn 787. Y mae credo Nicea ac Athanasius yn cael eu derbyn ganddynt; ac y maent yn dal athrawiaeth y Drindod, gyda'r eithriad hwn, mai oddiwrth y Tad yn unig y mae'r Ysbryd Glân yn deilliaw, ac nid oddiwrth y Tad a'r Mab. Y mae addoliad seintiau yn cael ei dderbyn gan Eglwys Groeg yn gystal ag Eglwys Rhufain. Y mae Eglwys Groeg yn caniattau arfer pictwrau er addysgu'r anwybodus, a chynorthwyo defosiwn eraill trwy arddangosiadau teimladwy. Y mae yn Eglwys Groeg *saith* o ddirgeledigaethau, neu sacramentau, fel eu gelwir hwynt yn Eglwys Rhufain; sef, bedydd, y *chrisma* neu eneiniad bedydd, y cymun, cyffesiad, urddiad, priodas, a'r eneiniad sanctaidd. Gyda golwg ar fedydd, nid oes dim yn neillduol yn perthyn iddo.

Y mae'r eneiniad (*chrisma*) yn ddirgelweh perthynol yn unig i gymundeb Eglwys Groeg, ac y mae'n llanw lle *confirmasiwn* yn Eglwys Rhufain. Y mae'n uniongyrch yn canlyn trochiad mewn bedydd, pan y mae'r offeiriad yn eneinio person yr hwn a fedyddir âg enaint ar ranau penaf y corph, cyssegrir yr enaint i'r perwyl hwnw, gan esgob, gyda llawer o ddulliau hynod iawn; y mae'r ddefod hon yn cael ei harfer yn wastad wrth dderbyn proselyt oddiwrth unrhyw eglwys arall pwy bynnag. Gyda golwg ar y cymun, y mae wedi bod yn bwngc o ddadl, p'un a oedd trawsylweddiad yn athrawiaeth yr Eglwys Groeg gyntefig ai peidio. Y mae'r Protestaniaid a'r gwir ddysgedig a'r hyawdl John Claude yn dal nad oedd; tra y mae'r Pabyddion, yn enwedig Arnaud, yn haeru ei fod: beth bynag am hyn, y mae yn athrawiaeth yn Eglwys Rwssia yn awr; oblegid yn y llw y mae pob esgob yn gymeryd yn awr ar ei gyssegriad, y mae'n tyngu yn bendant—ei fod yn credu ac yn deall fod trawsylweddiad corph a gwaed Crist, yn y swpper sanctaidd, yn cael ei ddwyn oddiamgylch trwy ddylanwad a gweithrediad yr Yspryd Glân, pan y mae'r esgob neu'r offeiriad yn gweddio ar Dduw'r Tad yn y geiriau hyn, *a gwna'r bara hwn yn gorph gwerthfawr dy Grist.* Y mae'n cael ei ystyried yn angenrheidiol yn Eglwys Groeg i gymysgu dwfr brwd â'r gwin, ac y mae'r cymunwyr lleyg yn cymeryd y ddwy elfen ynghyd, gan wlychu'r tamaid yn y cwppan; ond y mae'r offeiriaid yn eu cymeryd ar wahan. Fe all plant yn union ar ol eu bedyddio dderbyn y cymun. Y mae *arfaeth* yn egwyddor sefydledig yn Eglwys Groeg, ac yn dyb gyffredin ymhlith y Rwssiaid. Y mae Eglwys Groeg yn caniattau gweddiau a gwasanaeth dros y meirw fel defod hen a duwiol, ac hyd yn oed gweddiau dros faddeuant eu pechodau; ond y mae'n gwrthod y purdan, ac nid yw yn penderfynu dim yn awdurdodol ynghylch sefyllfa a chyflwr yr eneidiau ymadawedig. Y mae hefyd yn talu parch i weddillion *(relics)* seintiau a merthyron, o'r hyn y mae defnydd rhy ofergoelus yn cael ei wneuthur ganddi. Y mae *supererogation, indulgences,* a *dispensations,* fel eu gelwir, yn cael eu gwrthod yn hollol gan Eglwys Groeg; ac nid yw fel Eglwys Rhufain yn honni hawl mewn anffaeledigrwydd, ond fel llawer o eglwysi ereill, y mae yn euog o gymeryd arni fod yr unig wir eglwys iawn-gred. Ymddengys mai cyffes, neu gatechism Mogislaus y fu unwaith yn cael ei dderbyn fel syifaen egwyddorion Eglwys Rwssia; er hynny, y mae llawer o bethau ynddo nad yw doctoriaid presenol yr eglwys yn gymeradwyo; pethau eraill, y rhai a ystyriant yn ysgafn, ac nid ydynt, yn wir, yn addef y llyfr o un awdurdod.

Y mae llawer cynnyg wedi ei wneuthur i uno Eglwys Groeg a Rhufain a'u gilydd, ac hefyd a'r Eglwys Ddiwygiedig, ond hyd etto yn hollol ofer. Ni all dim mwy gresynus gael ei ddychymyg na chyflwr y rhan fwyaf o aelodau Eglwys Groeg. Nid oes ganddynt (yn Twrci o leiaf) nac ysgolion, nac un sefydliad arall er helaethu y meddwl a diwygio'r moesau. Y maent yn cael eu dal yn dŷn yn rhwymau'r tyw-

yllwch eithaf, fel eu brodyr y Pabyddion. Y mae'r anwybodaeth yma yn effeithio ymhell ar foesau'r Groegiaid. Y mae anniweirdeb, penrhydd-did, ac annuwioldeb yn gyffredin nid yn unig ymhlith y werin, ond hefyd eu pennaethiaid. Y mae'r gresyni sydd yn cyfodi oddiar y cyflwr alaethus hwn yn cael ei fwyhau gan eu cynhenau a'u rhaniadau parhaus. Y mae eu crefydd yn benbleth o ddefodau, y rhan fwyaf o honynt yn ysgafn fel gwegi, neu yn wrthun i'r eithaf. Ac etto y maent yn llawer mwy selog i gadw ac ymddiffyn y defodau disynwyr hynny, na sefyll dros athrawiaeth neu ufuddhau gorchymynion y grefydd y maent yn broffesu.

Efallai y dychwelwn etto i orphen yr hanes hwn; ond yr wyf o'r dyb fod digon wedi ei ddywedyd, i ddangos nad oes achos i'r Cristion fod yn bryderus iawn yng nghylch crefydd y Rwssiaid o leiaf. Yr oeddwn yn tybied yr hanes uchod yn angenrheidiol, o herwydd barna llawer fod Cristnogrwydd a Mahometaniaeth mewn ymdrech a'u gilydd; yn lle hynny nid amgen na chrug o ddwli yn ymdrechu a chymaint o ffolineb yr ochr arall sydd genym. O. E.

CAPEL SAINT SYLVED.—Llythyr II.

Mr. Ymofynydd,—Mae arnaf chwant i ysgrifenu ychydig ctto yng nghylch y capel, mewn ychwanegiad i'r hyn a ymddangosodd yn eich rhifyn am fis Hydref, er fy mod yn credu na bydd cynwysiad fy ysgrif o fawr ddyddordeb i ddarllenwyr yr *Ymofynydd*, oddieithr efallai i ryw ychydig o honynt yn nyffrynoedd Clettwr fawr a Chlettwr fach. Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am ymddangosiad fy llythyr cyntaf, a gobeithio y gallwch hebgor congl o'ch misolyn i'r un bychan hwn etto.

Mae'r capel a'r clochdŷ wedi cael eu sylfaenu, a'r adeiladaeth yn dyfod ym mlaen cystal ag y gellir disgwyl yn ol yr amser, ond nid yn gwbl mor gyflym ag yr oeddid yn golyglu yn y dechreu. Hwyrach fod y meiswnaid am gael clod gyda thâl am eu gwaith. Cymerwyd gofal anghyffredin yngosodiad y sylfaen i gyfeirio'r talcen yn gywir at y dwyrain; ond, er pob gofal, deallwyd cyn pen nemawr o amser fod y cyfeiriad yn anghywir; ac, fel pe buasai ychydig o *architectural obliquity* (a defnyddio geiriau un o offeiriaid enwoccaf sir Gaerfyrddin) yn ddigon i gau allan y presenoldeb dwyfol, ac yn ddinystriol i eneidiau'r gwrandawyr, ail-gloddiwyd y sylfaen er cael ongl yr iachawdwriaeth (*the angle of salvation* (?) yn berffaith gywir, os oedd yn alluadwy. Ond er cloddio ac ail-gloddio, mae'n eithaf tebyg fod yr ongl ym mhell o fod yn gywir etto.

Gan mai peth o ganlyniad mewn adeilad eglwysig yw, fod y pwynt yn berffaith, efallai y buasai o gynorthwy i'r personau fu'n penderfynu ei gyfeiriad yn sylfaeniad y capel hwn, nid yn unig i fod mewn meddiant o'r Yspryd Glân, ac yn hyddysg yn nirgeledigaethau trefn yr achub, ond hefyd i fod wedi trafaelu weithiau dros bont yr asynod (*pons asinorum*) yn *Euclid*. Os oes anghywirdeb saerniol yn yr adeiladaeth, ac os cleddir y meirw yn gyfochrog iddo, fel y mae arferiad cyffredin yr eglwys, os nad wyf yn camsynied, ai tybied y bydd yn olygfa chwithig i weled claddedigion St. Sylved ymmoreu'r adgyfodiad?

A wyddost ti, ddarllenydd, paham y mae gan yr eglwyswyr fwy o barch i'r dwyrain nag i un o'r tri phwynt arall—y gogledd, a'r gorllewin, a'r dê? Bob tro ag y mae enw Crist yn cael ei grybwyll wrth ddarllen credo'r apostolion, yn ol rheolau addoliad eglwysig, dylid plygu pen tua'r dwyrain; rhaid cael pob eglwys a'i thalcen tua'r dwyrain; rhaid gosod yr allor i sefyll yn y dwyrain; rhaid claddu'r meirw a'u traed tua'r dwyrain, yng

nghyd â llawer o ddwyrain-bethau eraill. Yr wyf yn credu y gellir olrhain rhaghoffiant dwyreiniol yr eglwyswyr yn ol i babyddiaeth a phaganiaeth. Er ys rhai blynyddau yn ol, ysgrifenodd un o'r enw Mr. Maclellan, yn dra helaeth yn y *Christian Pilot*, ar seremoniau Eglwys Loegr, a'i sylwadau ar yr arferiad o *blygu tua'r dwyrain* mewn anrhydedd i enw'r Iesu, nid ydynt yn anmherthynol i'r pwnc mewn llaw, ac er mwyn y darllenydd wele gyfieithad o honynt.

"Yn y cyfnod hwnw o eilunaddoliaeth, pan oedd y cyrph wybrenol yn wrthrychau addoliad, yn enwedig pan oedd yr Haul uwchlaw pawb eraill, (fel ag y bu unwaith yn agos dros holl wledydd y byd), yn cael ei ystyried yn deilwng o'r addoliad gwresoccaf, naturiol oedd i'r addolwyr, yn eu gwasanaeth, i droi eu gwynebau tua'r man hwnw o'r terfyngylch lle yr oedd eu duw yn gwneuthur ei ymddangosiad gyntaf bob bore, i adnewyddu ei fendithion ar y ddaear a'i phreswylwyr. Yng nghwrs amser, aeth yr arferiad hwn yn sefydlog, a phan oedd dynolryw yn ymgrymu i goed a maen, a delwau o aur ac arian, wrth bob tebygolrwydd, heb wybod yn y byd paham, cadwasant ym mlaen yr un cwstwm o edrych tua'r dwyrain yn eu defosiynau. A phan oedd Eglwys Rufain yn proselytio'r paganiaid, caniateid iddynt i gadw eu hen ddefodau, fel y byddai yn hawddach eu cymodi â'u crefydd newydd. Wedi i'r cenhadon pabyddol ddwyn i mewn i Gristnogrwydd y ddefod o *addoli tua'r dwyrain*, llawer iawn o goelgrefyddau eraill a ymlusgasant i mewn yng nghysgod hon—un o rhain oedd, mai y *tu dwyreiniol* o'r eglwys oedd y man sancteiddiaf o'r adeilad; a phan dyfeisiwyd gwasanaeth yr offeren, anghenrheidiol oedd cael allor, a naturiol oedd adeiladu'r allor yn y lle sancteiddiolaf; o ganlyniad, mewn pob adeilad eglwysig, gwelir yr allor bob amser yn sefyll yn y dwyrain. Ond y mae yn ddigon eglur fod mwy na hyn yn cael ei amcanu yn y seremoni. Swper yr Arglwydd, cynwysedig yn ei symlrwydd cyntefig mewn bwyta bara ac yfed gwin er coffadwriaeth am farwolaeth Iesu o Nazareth, a lygrwyd ym mhen amser i ddirgelwch rhyfeddol, yn yr hwn yr oedd elfenau'r ordinhad fel y tybid, yn cael eu trawsnewid trwy effeithioldeb gweddi yr offeiriad i wir gnawd, gwaed, a duwdod Crist. Yr elfenau cyfnewidiedg yma oeddent yn wastadol ar yr allor; ac wrth edrych tuag atti yr oeddid yn edrych tua'r man lle yr oedd Ail Berson y Drindod yn bresenol mewn gwirionedd ar y pryd. O ganlyniad beth allasai fod yn fwy naturiol, bob tro y byddai yn cael ei enwi, na phlygu pen yn barchus mewn cydnabyddiaeth o'i ddwyfol bresenoldeb? Fel hyn y ddefod o droi pen tua'r dwyrain a ddechreuodd gydag addolwyr yr Haul, ac o blygu tua'r allor, gyda'r athrawiaeth babaidd o draws-sylweddiad."

Trwy gynorthwy y sylwadau uchod gweli, ddarllenydd, i ryw fesur, paham mae'r eglwyswyr yn caru'r pwynt dwyreiniol mewn rhan fawr o'u cyflawniadau crefyddol.

Rhyfeddol! onide, fod dynion o synwyr a dysg yn gosod cymaint o bwys ar ddefodau, fel be baent yn ystyried fod cyflawniad o honynt yn rhan anhepgorol o grefydd a duwioldeb! Wrth edrych ar seremoniau Eglwys Loegr, a'u gosod mewn cyferbyniad i symlrwydd Efengyl yr Iesu, yr wyf fi, o leiaf, yn canfod cymaint o wahaniaeth rhyngddynt ag sydd rhwng degymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin, â gwneuthur pethau trymach y gyfraith, sef, barn, trugaredd, a ffydd; ac yn barod i lefain allan gyda Phaul—"O, ardderchawgrwydd gwybodaeth Iesu Grist fy Arglwydd!"

Dylai yr eglwyswyr a phawb eraill gofio yr hyn y mae Crist a'r Testament Newydd yn ei ddysgu—nad mewn defodau plentynaidd (a dweyd y goreu am danynt) mae gwir grefydd yn gynwysedig, ond mewn ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn gyfiawn, ac yn sobr, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon—mewn porthi'r newynog a diodi'r sychedig, dwyn y dieithr tua thre, dilladu'r noeth, ymweled â'r claf a'r rhai sydd yng nghar-char, y gwrageidd gweddwon a'r ymddifaid, ac ymgadw yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd. Gwyn fyd y rhai sydd yn gwneuthur hyn. Yn nydd cyfiawn farn Duw, byddant sier o glywed cyhoeddiad y ddedfryd orfoleddus, "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd."

Tachwedd. YMNEULLDUWR.

ADOLYGIAD Y WASG.

GRAMADEG O IAITH Y CYMRY. *A Grammar of the Welsh Language. By William Spurrell. Second Edition. Carmarthen: William Spurrell.*

Y MAE yn dda genym weled fod Mr. Spurrell wedi cael annogaeth ddigonol i gyhoeddi ail argraffiad o'i *Ramadeg o Iaith y Cymry*. Nid ychydig o gynnorthwy i'r efrydydd a fyddo yn awyddus i ddeall cyfansoddiad iaith, yw cael gramadeg da. I'r sawl sydd yn deall Saesonaeg, ac yn chwenych deall ansawdd a phriod-ddull y Gymraeg—hwn yw y Gramadeg goreu a wyddom ni am dano. Pe bai amser yn rhoi, gellid dangos ei fod, ar rai pyngciau o bwys, wedi llenwi diffygiadau y gramadegau blaenorol. Darllenasom yr ail argraffiad drwyddo, gyda chryn lawer o foddhad. Y mae yn dwyn nodau o ymchwiliad llafurus a threiddgar. Nid y'm am ddywedyd fod y gwaith yn rhydd oddiwrth ddiffygiadau. Pa waith sydd? Yr oeddem yn bwriadu nodi dau neu dri o bethau, i'w cyflwyno i ystyriaeth yr awdwr, erbyn y trydydd argraffiad; ond y mae amser a lle yn brin arnom y pryd hwn. Ar y cyfan, yr y'm yn ystyried fod y Gramadeg hwn yn teilyngu cymeradwyaeth uchel. Y mae yn gynnwysfawr ac yn drefnus—wedi ei ysgrifenu mewn iaith eglur, ac mewn dull dirodres. A chyda'i fod yn cynnwys llawer ag sydd newydd mewn ffordd o eglurhad a chyfarwyddyd i'r cymreigydd ieuange, y mae yr hyn a geir yn newydd ynddo, yn dda, ac i'r pwrpas.

Y mae y llyfr wedi ei argraffu ar papyr da, ac mewn llythyren eglur; ac y mae wedi ei rwymo yn hardd. Ei bris yw, 3*s*.

GWELEDIGAETHAU Y BARDD CWSG. *Gan Elis Wynne. Argraffiad Newydd, gyda Nodiadau eglurhaol, gan D. Silvan Evans. Caerfyrddin: W. Spurrell.*

WEL, wel! Pwy feddyl'sai? Dyma hen gyfaill ein ieuenctyd, a chydymaith diddan ein teidiau—y *Bardd Cwsg*—o'r diwedd wedi gwneuthur ei ymddangosiad mewn gwisg *weddus*, ïe, mewn gwisg hardd dros ben! Parch i athrylith Elis Wynne! Ond druan ag ef, ni cafodd ei gyfansoddiad campus, hyd yn hyn, ond triniaeth wael ar law yr argraff-wasg Gymreig, rhwng y papyr distadl, a'r llythyren bŵl, a'r argraff-waith llibynaidd, yn y rhai y gosodid ef o flaen y cyhoedd. Ond er gwaethaf y cwbl yr oedd y Cymry

yn ei ddarllen yn awyddus. Braidd, dychymygem, na thybiasai'r Bardd Cwsg ei hun ei fod yr awron wedi cael ei *newid* gan y "tylwyth teg," gan gymmaint y gwelliant a welir arno. Heblaw, y mae genym yn yr argaffiad newydd hwn, nodiadau gwerthfawr y Cymro dysgedig, y Parch. D. Silvan Evans. Hyderwn y bydd y Cymry i dystio, yn y ffordd briodol, eu teimlad o ddyled i Mr. Spurrell am hyn o anrheg. Pris y llyfr tlws, yw 1s.6c.

CENHEDLIAD GWYRTHIOL CRIST.

(*Parhad o Tudal.* 253).

Mr. Ymofynydd,—Ni wnaf ragor yn y llythyr hwn na rhoddi erynodeb o'r hyn oeddwn yn feddwl ysgrifenu, gan obeithio na wna hynny fy sylwadau yn anneall-adwy. O. E.

Y sylw nesaf yw hwn; fod llawer o'r amgylchiadau a nodir gan un efangylwr yn anghyson a'r hyn a ddywed y llall. Dywed Matthew mai y doethion ddygodd y newyddion pwysig gyntaf i Jerusalem. Dywed Luc, mai'r bugeiliaid wnaeth hyn, wedi eu rhybudio gan angel a llnaws o lu nefol.

Dywed Matthew mai Bethlehem oedd preswylfod Joseph a Mair. Luc, mai yn Nazareth yr oeddent yn byw, ac iddynt fyned i fynu i Bethlehem ar amgylchiad neilldnol, y trethiad. Ond rhag bod yn faith—

V. Chwiliaf yn fyr y dystiolaeth a gaer mewn rhanau ereill o'r hanes efengylaidd dros neu yn erbyn gwirionedd y pennodau dan sylw.

1. Er fod Matthew a Luc yn rhoddi dwy bennod gyfan at yr amgylchiad gwyrthiol, nid ydynt yn son am dano mewn un rhan arall o'u hanesion. Pa fodd y gellir eyfrif am hyn?

2. Y mae Marc ac Ioan, dysgybl *anwyl* yr Iesu, yn gadael allan yr hanes dan sylw yn hollol; pa fodd y gallent wneuthur felly, os gwyddent ddim am dano, sydd ddirgelweh i mi.

3. Y mae dechreu y 3ydd bennod o Efengyl Matthew yn annaturiol iawn yn ei gyssylltiad a'r ddwy bennod flaenorol. "Ac yn y *dyddiau hynny* y daeth Ioan Fedyddiwr, gan bregethu yn niffeithweh Judea." Beth yw'r *dyddiau hynny* a sonir am danynt? Yr unig ddyddiau y mae Matthew wedi son am danynt yw genedigaeth Crist. Yn y dyddiau hynny, sef, yr amser y ganed yr Iesu, y daeth Ioan Fedyddiwr gan bregethu: ond ni ddarfu i Ioan ddechreu pregethu am saith neu wyth mlynedd ar hugain ar ol *hynny*.

4. Oddiwrth y drydedd bennod o Luc ymddengys fod yr Iesu yn 30 mlwydd yn y 15ed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius; ac wrth gydmaru hyn a hanes Josephus y mae'n amlwg nad oedd yr Iesu wedi ei eni yn amser Herod, er y dywedir fod y brenin creulon yma wedi lladd y plant er mwyn dwyn bywyd yr Iesu. Ni chaniatta amser i mi roddi'r prawf o hyn.

5. Y mae y dull y mae Luc yn dechreu yr Actau, yn brawf eryf nad efe ysgrifenodd y ddwy bennod yn Luc sydd yn myned ar ei enw. Y mae'n ysgrifenu at yr un person, ac yn eyfeirio at ei draethawd blaenorol, ac yn dywedyd beth oedd nattur ac amcan y traethawd hwnnw. "Y traethawd cyntaf a wnaethum, O Theophilus, am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu." Oddiwrth hyn y mae'n amlwg mai diben yr Efengyl oedd rhoddi hanes digwyddiadau eyhoeddus yr Iesu, ac nid dywedyd dim am ei genhedliad gwyrthiol ef.

6. Yn y 3ydd ben. 15 adn., y mae Luc yn dywedyd fod y bobl yn disgwyl, a *phawb* yn meddylied am *Ioan* ai efe oedd y Crist. Os yw'r hanes am y cenhedliad gwyrthiol yn wir, pa fodd y gallasai neb feddwl mai Ioan oedd y Messiah?

7. Os gwir yr hanes dan sylw, yr oedd yr Efengylwyr yn gwybod mai yn Bethlehem y ganed yr Iesu, ac felly dylasent bob amser ei alw ef Iesu o Bethlehem; ond yn lle hyn bryd bynnag y siaradant am dref yr Iesu, y maent yn ei alw, nid Iesu o Bethlehem, ond Iesu o Nazareth; ac y mae un o honynt yn dywedyd yn bendant

mai mab Joseph oedd hefyd, sef, Phylip wrth Nathanael. Ond yn lle blino'r darllenydd a difyniadau, tröed i'r manau canlynol, a chaiff weled fod yr hacriad yn wir: —Mat. xxi. 11; Marc xvi. 6; Luc xxiv. 19; Ioan xviii. 5; xix. 19; Act. ii. 22; iv. 10; xxii. 8. Ac un gwrthwynebiad a fynwesid gan yr Iuddewon yn gyffredin yn erbyn mai'r Iesu oedd y Messia, oedd, mai yn Nazareth ac nid Bethlehem, fel y disgwylient hwy, y ganed yr Iesu. Gwel Ioan vii. 41, 42. Ymhellach etto, y mae ymofyniad mewn gwir yn cael ei wneuthur ynghylch lle genedigol yr Iesu, a diwedd yr ymofyniad yw, iddo gael ei eni yn Nazareth ac nid Bethlehem. Gwel Luc xxiii. 6, 7.

8. Yn Mat. xi. 2, yr ydym yn darllen—"A Ioan, pan glybu yngharchar weithredoedd Crist, wedi danfon dau o'i ddisgyblion, a ddywedodd wrtho, Ai tydi yw yr hwn sy yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl? Gwel hefyd Luc vii. 8, a Ioan i. 31, 33. Pa fodd y gallasai Ioan fod mewn amheuaeth mai'r Iesu oedd y Messiah os y gwyddai am amgylchiadau hynod ei genhedliad, a'r fath gyfrinach hefyd wedi bod rhwng Mair ac Elizabeth?

9. Yr oedd yr holl Iuddewon yn cymeryd yr Iesu fel Mab Joseph, ac mor bell y mae yr Efengylwyr o ammau y dyb hon, fel y maent yn ymddangos fel rhai yn ei chredu. Gwel Mat. xiii. 54, 55, 56; Marc vi. 3, 4; Luc iv. 22, 23; viii. 19; Ioan ii. 12; vi. 42; vii, 5, 27. Pe y gwyddent, gan hyny, ar y pryd yr oeddent yn ysgrifenu, mai *nid* mab Joseph oedd Iesu, y mae'n hollol anghredadwy y buasai iddynt adael y fath dyb gael ei chofleidio heb ei hammau, heb gymaint ag un sylw, ac felly roddi eu cadarnhad iddi a'i sicrhau yn y byd.

10. Os nad mab Joseph oedd yr Iesu, pa briodoldeb all fod yn yr ymadrodd a gyfarfyddir trwy y Testament Newydd, sef, "Mab y dyn?"

11. Yn Marc iii. 20, 21, yr ydym yn darllen—"A'r dyrfa a ymgynhullodd drachefn fel na allent gymmaint a bwytta bara. A phan glybu yr *eiddo*, hwy a aethant i'w ddal ef; canys hwy a dywedasant y mae efe allan o'i bwyll." Cyfaddefir yn gyffredinol, feddyliaf, mai ei frodyr a'i fam a sonir am danynt yn adnod 31, sydd i ni ddeall wrth "yr eiddo ef." A oes cyssondeb mewn meddwl y buasai'r *eiddo ef*, ei frodyr a'i fam, i'w gyhuddo o wallgofrwydd, os yw'r amgylchiadau gwyrthiol yn y pennodau dan sylw yn wir?

12. Y mae genym un adnod etto i sylwi arni, sef, Luc iii. 23,—"A'r Iesu ei hun oedd ynghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed, mab fel y tybid i Joseph, fab Eli, &c. Sylwn wrth fyned heibio, mai achau Joseph sydd yn cael eu rhoddi yma yn gystal ac yn Matthew, ac achau Iesu trwy *Joseph*; ac os nad oedd yr Iesu yn perthyn i Joseph, nid ydynt achau'r Iesu. Ond i ddychwelyd at y geiriau dan sylw. Yn ol fel y maent yn y Gymraeg, y mae Luc yn haeru'n bendant mai mab Joseph oedd yr Iesu; mab, fel y tybid, i Joseph: hynny yw, yr oedd yn cael ei dybied yn fab Joseph yn gyffredin, ac yr oedd yn fab Joseph, medd Luc, fel yr oedd dynion yn tybied. Yr oedd y dyb yn wir. Yn y Groeg y mae'r iaith yn gryfach fyth, oblegid y gair a arferid am gofrestru dynion yn ol y gyfraith sydd yn cael ei ddefnyddio. Mab, yn ol yr arfer o gofrestru, i Joseph, ac yna y mae Luc megis yn tynu allan ei *register* i brofi hynny. Pe buasai Luc am ddangos nad mab Joseph oedd Iesu, dywedasai, "Nid mab Joseph fel y tybid," ac yna buasai pob peth yn eglur.

VI. Y mae'r dystiolaeth flaenllaw yn erbyn yr hanesion gwyrthiol a geir yn y pennodau hyn. Yr oedd y prophwydoliacthau yn yr Hen Destament yn rhoddi pob lle i feddwl y buasai y Messiah yn gyffelyb i ddynion eraill, "o lwynau Dafydd, yn brophwyd megis Moses;" ac nid yw'r geiriau, "A morwyn a fydd beichiog," yn un cithriad, gan y cyfaddefir fod y geiriau yn eu hystyr gyntaf yn cyfeirio at berson heb ddim yn wyrthiol yn ei genhedliad.

Etto, mae'r gofyniad yn cyfodi yn naturiol, pa reswm moesol da ellir roddi dros y fath gyfryngiad hynod yn y Rhagluniaeth Ddwyfol? Pa ddiben all y cenhedliad gwyrthiol ei atteb? Nid yw yn cynnwys un prawf o Dduwdod Crist, nac ychwaith o'i raghaufod, ac nid yw yn ychwanegu dim at ei deilyngdod, yr hwn sydd yn ymddibynu bob amser ar yr ewyllys. Ond y mae'r cenhedliad gwyrthiol yn niweidiol i ddiben mawr ei anfoniad, sef, y prawf o adgyfodiad dynolryw oddiwrth y meirw.

Ein sylw nesaf yw hwn: pa fodd y daeth yr Efengylwyr i wybod am y gwyrth hwn?

A gafodd ef ei gyhoeddi, nid yn unig gan Joseph a Mair, ond gan Elizabeth, a Simeon, ac Anna, a'r bugeiliaid, a'r doethion, a Herod? Yr ydym yn ateb, dyma'r hyn sydd fwyaf tebygol, ac yn wir ymddangos ai oddiwrth y penodau hyn mai dyma fel y bu. Ac etto, ymddengys mai nid dyma fel y bu, ond gan na wyddai y Nazareniaid *ddim* am dano; ni wyddai *brodyr a chwiorydd* yr Iesu *ddim* am dano, ac ni wyddai trigolion Jerusalem *ddim* am dano.

Yn nesaf, byddai y gredineth yn nwyfol anfoniad yr Iesu yn debyg o gael ei wanhau gan y fath chwedl, gan mai o Dafydd yr oedd i ddyfod, yr hyn ni ellir ei olrhain ond trwy Joseph. Ar y tu arall y mae yn amlwg na wnaeth anghrediniaeth yn yr hanesion hyn ddim effeithio ar y gredineth yn anfoniad yr Iesu, fel y tystia hanes yr Ebioniaid, neu'r Nazareniaid, neu'r holl Gristnogion Hebreig. Cyfaddefir fod y Cristnogion hyn yn ymwrthod yn hollol a'r cenhedliad gwyrthiol, ac etto nid ydynt yn cael eu beio gan neb o'r apostolion am hynny.

Buasai'r amgylchiad, pe gwir, yn niweid pwysig i gymeriad Mair. Nis gallwn feddwl y buasai trigolion y dref yn gyffredin i roddi coel i ymddangosiad yr angel; rhaid gan hynny y gwnaent ei ystyried fel chwedl, wedi ei dyfeisio gan Mair i'w chadw rhag gwaradwydd.

Pe buasai'r digwyddiadau a gofrestrir yn y penodau hyn yn wir, buasai dwyfol anfoniad a swydd Iesu wedi ei wneuthur yn adnabyddus yn rhy glau. Y mae y rhan fwyaf yn gwybod fod yr Iuddewon mewn cyflawn ddisgwyliad am y Messia ar yr amser yr ymddangosodd yr Iesu. Yr oeddent yn disgwyl iddo fod yn dywysog tymhorol i'w gwaredu o dan awdurdod Rhufain. Yr oeddent oll, gan hynny, yn barod i wrthryfel, fel y mae'n amlwg oddiwrth eu gwaith yn pentyrru oddiamgylch y fug Fessia a gyfododd yr amser hwnnw. Y fynud, gan hynny, y gwnaai'r Iesu ymddangos yn gyhoeddus, os oedd yn beth adnabyddus mai efe oedd y Messia, buasai yn arwydd am wrthryfel cyffredinol.

Ond i dynu at y terfyn, cyfaddefir gan Dadau yr Eglwys Grist'nogol, fel eu gelwir, er eu bod hwy eu hunain yn credu'r cenhedliad gwyrthiol, fod yr Iesu a'i Apostolion wedi gwneuthur a allent i guddio'r amgylchiad hwn.—*Gwel Priestley's Early Opinions.*

Y mae Origen yn dywedyd, fod "yr Iuddewon yn meddwl mai mab Joseph a Mair oedd Iesu, ac na fuasent yn credu'r Iesu pe y dywedasai mai mab Mair yn unig oedd ef." Y mae Ambrose yn dywedyd fel hyn, "Yr oedd ein Harglwydd yn dewis yn hyttrach i'w ddechreuad fod yn anadnabyddus, nag i ddiweirdeb ei fam i gael ei ammeu." Dywed Chrysostom, "Ni fynnai yr Efengylwyr i'r Iuddewon wybod, ar ol ei enedigaeth, fod Crist wedi ei eni o wyryf; oherwydd hyn y mae achyddiaeth Joseph yn cael ei gosod i lawr, oherwydd hyn ni ddarfu i'r Apostolion, ar y cyntaf, lefaru am hyn, ond yn hyttrach, siaradent yn helaeth am ei adgyfodiad; ac ni *feiddiodd* ei fam fynegu hyn, oblegid, sylwch sut y mae hi yn dywedyd, wele dy *dad* a minnau yn ofidus a'th geisiasom di." Y mae Jerom yn ymresymu i'r un pwrpas, ac yn 'chwanegu, "fod *pawb* yn cymeryd Iesu fel mab Joseph, fel ag yr oedd yr Apostolion, er gosod allan y dyb gyffredin, yn *galw* Joseph yn dad ein Hiachawdwr." Y mae Ignatius, a'r rhan fwyaf o'r tadau, yn rhoddi yr hyn a ystyriem ni yn awr, yn rheswm digrif dros eu gwaith yn celu hyn, sef, fel y buasai iddo gael ei guddio rhag y Diafol. Y mae Basil yn dywedyd i Mair briodi Joseph, fel na buasai i'r Diafol dybied mai gwyryf oedd hi, oherwydd fe wyddai efe fod Crist i gael ei eni o wyryf, a'i fod i osod terfyn i'w allu ef."

Felly yr oedd yn well gan y boneddigion hyn briodoli un cynllun parhaus o dwyll trwy eu bywyd i'r holl Apostolion, i Joseph a Mair, ac i'r Iesu ei hun, yn hyttrach na chyfaddef fod distawrwydd hollol pregethwyr cyntaf Cristionogrwydd ynghylch cenhedliad gwyrthiol yr Iesu, yn brawf ei fod yn ffugiol.

Ychwaneger at yr hyn a ddywedwyd, fod ar yr amser hwn chwedl rywbeth yn debyg i hon ar led, yn gyffredin yn *Rhufain*. Ac y mae o leiaf yn bosibl mai y chwedl hon ddarfu gyntaf roddi'r meddwl i awdwyr y penodau gwyrthiol i'w chymhwyso at Grist. Y mae yn beth lled ryfedd fod Josephus, yn ei hanes, yn dwyn y chwedl hon ymlaen yn union ar ol rhoddi hanes Iesu Grist, os pur y rhan hyny o'i waith.

Yn ddiweddaf, sylwaf ar rai o'r manau hynny yn yr Ysgrythyr a dybir fod yn cefnogi'r cenhedliad gwrthiol, heblaw y penodau cyntaf yn Matthew a Luc.

Yr adnod flaenaf yw Gen. iii. 15, "Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau." Gan y meddylir fod y geiriau hyn yn cynnwys prophwydoliaeth am Grist, a'i fod yma yn cael ei alw yn had y *wraig*, casglir fod yma gyfeiriad at ei genhedliad gwyrthiol. Ond gan na ddywedir fod y dyb hon yn cael ei dysgu yn y geiriau hyn, ond yn unig fod yma gyfeiriad atti, nid oes achos dywedyd rhagor am danynt na hyn, sef, nad yw'r geiriau hyn ddim yn cynnwys y fath athrawiaeth. A phe buasai y geiriau, "had y *wraig*," yn dangos ei fod heb un tad, buasai ei eiriau ef ei hun, sef, *Mab y dyn*, fel y mae'n galw ei hun, yn gryfach prawf o lawer nad oedd ganddo un fam; ac felly rhwng y ddau ymadrodd, buasai heb dad na mam. Ond nid yw'r ymadrodd, *had y wraig*, ddim yn arwyddo rhagor na dyn yn gyffredinol.

Yr adnod nesaf yw Ioan i. 14, "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni." Nid oes neb yn ammeu na chafodd y Gair ei wneuthur yn gnawd (wedi dyfod yn y cnawd); ond y cwestiwn yw y dull y cafodd ei wneuthur felly. Ac nid oes dim yn y geiriau yn penderfynu hyn.

Yr adnod nesaf, Gal. iv. 4, "Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o *wraig*, wedi ei wneuthur dan y ddeddf." Dywedir fod y geiriau hyn yn dangos mai o *wraig yn unig* y cafodd Crist ei wneuthur. Ond nid yw y geiriau yn dywedyd hynny, nac yn caniattau'r fath beth. Nid yw y geiriau yn dywedyd, wedi ei wneuthur o wraig heb wr iddi, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, wedi ei wneuthur o wraig, ie, a *than y ddeddf* hefyd. Nid oedd y ddeddf yn caniattau i wraig i gael plentyn o neb ond ei gwr, a phe digwyddai'r fath beth, yr oedd y wraig, yn ol y ddeddf, i gael ei llabyddio a meini. Ganed yr Iesu ynte o wraig dan y ddeddf, sef, mewn glân briodas. Ond beth, ai oherwydd fod y geiriau yn dywedyd i'r Iesu gael ei wneuthur o wraig, y casglir nad oedd ganddo dad? Os felly, beth ddaw o'r adnodau canlynol (Job xiv. 1), Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau a llawn o helbul. xv. 14, Pa beth yw dyn i fod yn lân, a'r hwn a *aned o wraig* i fod yn gyfiawn? xxv. 4, Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw? Pa fodd y bydd yr hwn a *aned o wraig* yn lân?—Matt. xi. 11. Ymhlith *plant gwragedd*, ni chyfododd neb mwy na Ioan Fedyddiwr."

Dywedir etto fod yn rhaid i'r Iesu gael ei eni o wraig yn unig heb dad iddo, fel y byddai yn rhydd oddiwrth y pechod gwreiddiol. A chaniattau'r athrawiaeth ddisail hon, pa fodd, yn enw pob rheswm, y gallasai'r Iesu fod yn rhydd oddiwrtho, serch cael ei eni o wraig heb un tad iddo? Onid y wraig onid Efa, ac nid Adda, oedd yn y camwedd, medd Paul (1 Tim. ii. 14), "Ac *nid Adda a dwyllwyd*; eithr y wraig wedi ei thwyllo, oedd yn y camwedd." Wrth hyn, buasai yn well iddo fod heb un fam, gan mai hi yn unig oedd yn y camwedd. Ac y mae Job yn gofyn y cwestiwn, fel y gwelsom eisioes, "Pa *fodd* y bydd yr hwn a aned o *wraig*, yn lân? Felly, y mae'r ymresymiad hwn yn lladd ei hun.

Dan sylw byr wrth roddi heibio. 1. Nid yw purdeb yr Efengylau yn dioddef dim serch fod yr hanes ffugiol a ddodwyd attynt yn myned i lawr. 2. Os nad yw'r pennodau hyn yn bur, trwy gael llonydd ganddynt, y byddwn yn gwneuthur fwyaf o wasanaeth i'r gwirionedd. Gwnaeth Paine ddefnydd diogel o'r hanes fu dan ein sylw, er taflu i lawr yr hanes yn gyffredinol.

Gan ddymuno llwyddiant i bob ymdrech ymhlaid y gwir, y gorphwysaf. Yr eiddoch, yn garedig,

Cefn. OWEN EVANS.

SALMAU IOLO.

MR. GOL. Teimlaf yn ddiolchgar os rhoddwch le yn rhyw gongl o'r *Ymofynydd*, i'r nodyn a ganlyn ynghylch *Salmau yr Eglwys yn yr Aniatwch*, gan IOLO MORGANWG. Nid oes achos i un (Eiddil, &c.) o'm bath i, i ddywedyd llawer am ragoroldeb y *Salmau* hyn. Y mae eu clod yn uchel yn nghynnidleidfaoedd addolwyr yr *Un Duw*, trwy y Dehenbarth. Ac y mae craill yn eu gwerthfawrogi nad ydynt o'r un golygiadau crefyddol a'r hen fardd. Y mae y Salmau hyn o honynt eu hunain yn dwyn prawf anorchfygol o'u rhagoroldeb i argyhoeddiad a theimlad pob dyn a'u

darlleno yn ystyriol. Yn eu llafar syml ac ardderchog, clywir ac adwaenir llais crefydd y deall a'r teimlad; a Duw a'i wirionedd uwchlaw pob peth. Yr wyf fi, a llawer gyda myfi, yn cwbl gredu y byddai o ddirfawr les i achos rhinwedd a gwir grefydd trwy'n gwlad, pe byddai *Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch* o fewn cyrraedd y cyffredin. Fel y mae, y maent maes o gyrraedd hyd yn oed y sawl ydynt yn chwenych eu cael trwy dalu 2*s.* yr un am y ddau gyfrol. A oes y fath beth a symud y rhwystr hwn?

Y mae yn wybyddus hefyd taw y *Salmau* crybwylledig sydd mewn arferiad yn bresenol braidd yn mhob Capel yn mhlith Undodiaid Cymru. Y mae eu darllen a'u canu yn y gynnulleidfa, yn gwneuthur i fynu ran fawr o'r addoliad cyhoeddus, pa un ai yn wythnosol neu yn achlysurol. Rheswm arall, dros gael y *Salmau* o fewn cyrraedd y cyffredin, fel y gallo pob un (os myn) fod a'i lyfr *Salmau* yn ei law, a chyduno a'r gynnulleidfa i ganu mawl i Dduw; heb ymddibynu yn gwbl ar y cof.

Rhaid i mi gael dywedyd gair hefyd dros y côrau cynnulleidfaol yn ein plith. Y mae'r *Salmau* wedi myned mor brin, fel nad oes modd i roddi llyfr yn nwylaw pob un o'r cantorion; yr hyn fyddai yn dra dymunol. Beth yw y canlyniad o'r diffyg hyn? Beth ond clywed brawlan neu fwmian rhywbeth yn soniarus, yn lle "canu a'r ysbryd ac a'r deall hefyd," er adeiladaeth y gynnulleidfa?

Nis gwn beth yw y gwir achos o fod y diffyg crybwylledig yn cael aros o flwyddyn i flwyddyn; p'un ai difaterwch ein gweinidogion a'n blaenoriaid, neu ynte nad ydynt yn tybied fod y cyfryw ddiffyg yn un rhwystr i ymdaeniad y gwirionedd, ac adeiladaeth yr Eglwysi. Trueni bod dynion yn cael sychedu am bethau gwerthfawr sydd maes o'u cyrraedd. Y mae'r oes yn caru darllen; ac y mae dynion yn dod i farnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol. Nid gwiw oedi llawer tra mae llygaid y werin yn agored, ac yn barod i dderbyn addysg. Am hynny, tafler ymaith bob musgrellni; a brysiwn i'r winllan tra y mae yn amser gweithio.

Dymunwn wasgu yr ychydig sylwadau hyn at ystyriaeth y gweinidogion Undodaidd, yn neilldiol; fel y gellir gosod cynllun ar droed, tuag at gael argraffiad newydd o *Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch.*

Yr eiddoch,

Aberdâr. JOHN JONES,
(*Eiddil Glan Cynon.*)

[Yr y'm yn credu y buasai argraffiad newydd o'r *Salmau* wedi ymddangos cyn hyn, pe cawsid cydsyniad perchenog y *copyright.* Cynghorwn ein gohebydd i ddwyn y matter ger bron y brodyr a fyddant yn y Cyfarfod nesaf ar Gefn-coed-y-cymer.—GOL.]

YCHYDIG O HANES BYWYD A PHROFIAD GREFYDDOL JOHN DODESARE HANDY.—(*Parhad o tud.* 266).

BUAIS yn byw yn Woolwich yn agos i ddeuddeg mis, aethum wedi hyny i fyw gyda brawd fy niweddar feistres yn Warblington, yn agos i Havant, Hants. Yr oeddwn yn arfer gwrandaw ar Mr. Scamp, gweinidog yr Independiaid, yn Havant, am nad oedd un eglwys Undodaidd yn nes na Portsmouth, Wareham, neu Chichester, naw milldir o ffordd i bob un o honynt. Ar un dydd Sul, clywais ef yn dywedyd ar ei bregeth—er fod mil o drigolion yn Havant, Emsworth, a Castell Rowland, nad oedd dim rhagor na chant cyfiawn; ag yr oedd yn herio un dyn i ddywedyd fod cant ag un; a dywedodd hyny ddwy waith drosto.

Dau ddiwrnod wedi hyny aethum atto i ofyn beth oedd yn ei feddwl wrth ddywedyd —nad oedd dim rhagor na chant cyfiawn yn y fil. Dywedodd ei fod yn meddwl y rhai oedd yn dilyn Crist. Dechreuais ymresymu âg ef o'r Ysgrythyrau; a dywedais wrtho nad oedd Duw ddim fel dyn yn edrych ar yr ochr allanol, ond fod Duw yn edrych ar y galon; ac etto, yr ydym wedi ein gorchymyn i beidio barnu na chondemnio. Ond, i fod yn fyr, cawsom lawer iawn o ymresymu ar destunau crefyddol. Dywedodd wrthyf nad oedd yr Undodiaid ond ychydig; bod Crist yn Hollalluog Dduw; a'i fod yn petruso am gadwedigaeth fy enaid. Atebais wrtho nad oedd y lliaws ddim bob amser yn iawn, ag nad oeddwn i ddim yn ofni yn nghylch

cadwedigaeth fy enaid. Dywedodd fod yn rhaid iddo gyfaddef nad oedd y lliaws ddim bob amser yn iawn.

Gadewais a fy lle yn Warblington ym mis Mawrth, 1816, am nad oedd genyf un cyfleusdra i fyned i dŷ addoliad Undodaidd. Nis gallaswn fod yn ddedwydd heb gysylltu fy hun mewn addoliad cyhoeddus o'r unig wir a'r bŷwiol Dduw, trugareddau yr hwn ydynt wedi fy nilyn trwy fy holl ddyddiau; ac nis gallswn uno yn addoliad y Drindod. Daethum i Portsmouth, mewn gobaith o gael rhyw waith arall, ond oblegid mawr diffyg masnach, nid ydwyf etto wedi llwyddo.

Ond feallai fod rhyw un yn dewis cael gwybod a ydyw y gwas Negroaidd hwn wedi troi un dyn i'w farn ei hun? Yr wyf finnau yn atteb—Ydwyf; canys gwnaeth yr Arglwydd fi yn offeryn i droi fy niweddar feistres, Mrs. Cock, a dau o'm cydwasanaethyddion, o addoliad y Drindod i'r wybodaeth o'r unig wir Dduw.

Soniais o'r blaen am y trafferth a gymerodd fy meistres i fy nhroi yn ol i'r eglwys. Wedi marw fy meistr, yr oedd hi a finau yn arfer ymddiddan ynghylch fy syniadau newyddion, fel yr oedd yn arferol o'u galw; ond y mae'r syniadau mor hened â Christ a'i apostolion. O'r diwedd dywedodd wrthyf fy mod yn iawn, a'i bod yn credu nad oedd ond UN Duw, ac mai Iesu Grist oedd y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, ac ei bod yn credu eu bod yn ddau Fod gwahanol, ac mai Ysbryd Duw yw'r Yspryd Glân, ac nid person; ac mai trwy ras Duw y byddwn gadwedig trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Ac am y Drindod hi a'i gwrthododd am nad oedd yn ei deall, canys yr oedd yn ddirgelwch iddi hi. Mae yn ddrwg genyf ddywedyd na fu hi ddim byw ond ychydig fisoedd wedi iddi ddywedyd hyn wrthyf. Yr oedd hi yn glaf iawn ac yn fynych yn fy ngalw i'r ystafell i siarad â hi am grefydd wrth ymyl ei gwely; ac yr oedd yn arfer dywedyd wrthyf am chwilio allan rhyw ran o'r Ysgrythyr i'w chyfaill Miss F. A. i ddarllen iddi hi; ond yr oeddwn yn cael pleser wrth ei chlywed yn siarad am gariad Duw tuag at ei greaduriaid, trwy anfon ei Fab i'r byd i'w cadw hwynt. Yr oedd yn arfer dywedyd ei bod yn foddlon pryd bynag y gwelai Duw yn gymwys ei galw hi, a'i bod yn ymddiried yn Nuw i'w chadw trwy Iesu Grist. Mae genyf reswm i ddywedyd iddi farw marwolaeth ddedwydd, ac yn y ffydd Undodaidd; ond os bydd rhyw un yn ammeu gwirionedd yr hyn yr wyf yn ei ddweyd, gallaf ei gyfeirio at y foneddiges ragddywededig, yr hon oedd gyda fy meistres yn ei mynydau olaf.

Bum hefyd yn achos o argyhoeddi fy ngydwasanaethes Sarah P. Hi ddilynodd esampl y Bereaid rhagorol yn hyny; hi a "dderbyniodd y gair gyda phob parodrwydd meddwl, gan chwilio beunydd yr Ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly." Ond wrth chwilio yr Ysgrythyrau gwelodd ei bod yn wir; hi a argyhoeddwyd mai Duw ein Tad yw'r unig wir Dduw, ac mai Iesu Grist yw unig-anedig Fab Duw; ond ni allasai gael dim yn yr Ysgrythyrau am Dri Pherson yn y Duwdod. Hi a ufuddhaodd hefyd i orchymyn ei Harglwydd a'i Meistr trwy gydymffurfio a'r ordinhad o fedydd, gan Mr. Moon, gweinidog eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol yn Deptford, lle yr oeddem yn arfer cyfarfod. Yr oedd wedi myned i fyw i Woolwich ar farwolaeth ein meistres. Unodd a'r gymdeithas yno, ac y mae yn awr yn byw mewn teulu parchus, yn agos i'r lle hyny, ac "y mae'n barod i roddi atteb i bob un a ofyno iddi hi y rheswm o'r gobaith sydd ynddi, gydag addfwynder ac ofn."

Y mae fy nghydwasanaeth-ddyn arall, Ann B., hefyd wedi gwrthod y Drindod, ac y mae wedi ei hargyhoeddi o athrawiaeth yr Undod Dwyfol. Buais yn ymresymu llawer iawn a'r fenyw ifanc hon cyn y gallaswn ei hargyhoeddi o wirionedd fy syniadau.

Mae genyf achos mawr i foli yr Hollalluog am ei ddaioni i mi. Er i mi gael fy ngyru oddiwrth fy rhieni naturiol, gyda y rhai y cawswn fy nwyn i fynu mewn anwybodaeth, darfu fy Nhad Nefol wylied droswyf, a rhoddodd yng nghalon fy meistr a meistres i ofalu am danaf, ac i fy nysgu i ddarllen fy Meibl; ac wedi hyn i'm dwyn i wybodaeth o'r gwirionedd fel ag y mae yn yr Iesu, yr hyn yw fy nghysur a'm hyfrydwch mawr. Am hyn oll molaf ei enw, a dywedaf am ei ddaioni cyhyd ag a byddaf byw.

JOHN HANDY.

Portsmouth, Ebrill, 1817.

Cyfieithwyd yr hanes uchod ar gais cyfaill o'r *Christian Reformer*, am Mehefin, 1817, gan R. J. J.

Y PUR O GALON A WELANT DDUW.—Oni bydd dyn yn yr un elfen a'r peth yr edrycho efe arno, nis gwel yn iawn. Pan edrycho un oddiar y làn ar bren yn y dwfr, efe a'i gwel yn gam, er ei fod yn union. Felly ni ddichon yr hwn sydd mewn cyflwr cnawdol iawn ddirnad y gwirionedd grasol; "oblegid yn ysbrydol bernir ef." Meibion Duw sydd gynefin â'i bresennoldeb ef, ac arferol o drin ei negesau, a adwaenant ysgrifen-law eu Tad Nefol. Cais burdeb calon, a chei weled Duw, a'i ewyllys hefyd.—C. EDWARDS.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y SEFYLL ALLAN.

Y mae sefyll allan am gyflog wedi peri cynnwrf nid bychan, yn ddiweddar, mewn amryw barthau o'r deyrnas, yn Lancashire yn benaf. Golwg annymunol iawn yw gweled ugeiniau o filoedd o weithwyr mewn gwrthryfel cyhoeddus yn erbyn eu meistri. Etto teg yw i'r gweithwyr i geisio amddiffyn eu hunain, fel dosbarth,os gallant, trwy gydweithrediad. Ond ofnwn nad yw y *strikes* yma braidd oll yn terfynu yn ffafriol i'r gweithwyr. Byw yn segur, ar gyfraniadau, yn lle ar eu llafur annibynol eu hunain, a thaflu trefnidaeth y gwaith i anhrefn, er mawr golled i feistr a gweithiwr; a'r gwraggedd a'r plant, am y tymor a chwedi'n, yn gorfod dioddef o'r herwydd, ydynt ddrygau mor amlwg ynddynt eu hunain, ac yn eu canlyniadau, fel nad oes braidd eisiau eu nodi. Trueni nad ellid cyttuno ar ryw drefn, fel yr hon a gynnygia Mr. Hume, er symud achosion y fath ymrafaelion trwy gyflafareddiad. Bu cryn derfysg yn Wigan. Ond gobeithiwn y deuir i gytundeb heddychol ar fyr.

Y CHOLERA.

Trwy drugaredd y mae'r pla hwn, hyd yn hyn, wedi cadw yn rhyfedd rhag ymdaenu dros y wlad. Ond y mae yn parhau i wneuthur hafog ymhlith y Llundeinwyr; ac nid rhyfedd tra y gadewir i'r fath swm o amhureddo bob math, i aros yn nghanol cynifer a dwy filiwn, ag sydd yn y brif-ddinas.

PARHAD SWN AM RYFEL,

Cynnaliwyd amryw gyfarfodydd yn ddiweddar yn y Prif-ddinas ac yn y taleithiau, yn y rhai y cyttunwyd i annog y llywodraeth i gymmeryd yn ddioed y mesurau priodol er gwrthwynebu ymosodiadau gorthrymus Rwssia. Ymddengys fod pob dosparth a phob plaid braidd trwy'r deyrnas o'r un ysbryd oddieithr Mr. Cobden a'i blaid; a chan fod y rhyfel wedi torri i maes rhwng Rwssia a Thwrci, a bod yr Ymherawdwr Nicholas yn rhy ystyfnig neu yn rhy drachwantus, i roddi ei ysglyfaith allan o'i afael, y mae yn anhawdd gweled pa fodd y gall y wlad hon ochelyd myned i ryfel, heb beryglu ein masnach a'n tiriogaethau yn y dwyrain.

PORTUGAL.

Bu Dona Maria II., Brenhines Portugal farw ar y 15fed o'r mis diweddaf, ar enedigaeth plentyn. Y mae Duc Braganza, ei mab hynaf, yn ei ddwyfed flwydd ar bumtheg. Yn ol cyfreithiau y deyrnas y mae yn debyg y bydd y Brenin Ferdinand yn Llywydd *(Regent)* hyd nes byddo y Tywysog ei fab yn llawn oedran. Hysbysir ni gan y newyddion diweddaraf, fod gwrthryfel wedi torri allan, o blaid Dom Miguel, ewythr y Frenhines ymadawedig, a'r hwn fu yn achos o gymaint o derfysg a rhyfel yn Portugal rai blynyddau yn ol.

Ganed Donna Maria yn Rio Janeiro, yn Brazil, America Ddeheuol, y 4ydd o Ebrill, 1819. Dechreuodd ei gyrfa wladwriaethol pan yn blentyn. Ar farwolaeth y Brenin John IV., yn 1826, wedi i'w thad, Dom Pedro Ymherawdwr Brazil, roddi i fynu ei hawl i goron Portugal, a chyhoeddi llywodraeth rydd yno, cyfodwyd Donna Maria i'r Orsedd; ac ymhen ychydig fisoedd wedi'n diweddiwyd hi i'w hewythr Dom Miguel, yr hwn a wnaed yn llywydd ar y deyrnas. Ond beth wnaeth y Tywysog hwn, mor gynted ag y cafodd i'w ddwylaw awenau y llywodraeth yn enw ei nith, ond cymeryd trawsfeddiant o'r orsedd, a gwrthod y *charter*. Yna daeth Donna Maria i Loegr, lle y derbyniwyd gan Sior 1V. fel brenhines gyfreithlon Portugal. A dechreuwyd y rhyfel yn y wlad hono, yr hwn a derfynwyd gyda gwaith Dom Pedro yn cymeryd Lisbon yn Medi, 1833. Yn 1834, darfu i'r *Cortes* yn unfryd gyhoeddi fod Donna Maria, pan yn ei 15fed flwydd, yn llawn oedran, ac yn gyflawn Frenhines. Cyfarfu y Dywysoges hon a llawer o groesau a thrafferthon. Yn fuan wedi ei sefydlu ar yr orsedd, ymbriodododd â'r Tywysog Augustus Leuchtenberg, mab hynaf y Tywysog Eugene Beauharnais, a chefnder i Ymherawdwr presenol Ffrainge; cyn pen pedwar mis yr oedd yn weddw. Ymbriodododd eilwaith yn flwyddyn ganlynol (1836) a'r Tywysog Ferdinand, o'r gangen Gothalig o Deulu Coburg yn Germany. Y mae lle i ofni y bydd i'r terfysg sydd yn bygwth cyfodi yn Portugal i ychwanegu at yr achosion eraill ag ydynt ar hyn o bryd yn rhwystrol i barhad heddwch Ewrop.

RWSSIA A THWRCI.

Y mae y *cyhoeddiad* a roddwyd gan Ymherawdwr Rwssia ar yr 20fed o Hydref, yn chwythu bygythion llidus. Y mae hefyd yn llawn o gelwyddau noeth cywilyddus, am lywodraeth y Sultan. Arddengys ei benderfyniad i fyned ymlaen a'r rhyfel trwy bob trwch, gan ddiweddu trwy alw ar yr Arglwydd i fod yn gyfnerth iddo yn ei ymosodiadau anghyfiawn.

Pa fodd bynag ymddengys fod y Tyrciaid yr un mor benderfynol i amddiffyn eu hunain hyd yr eithaf. Ac y mae llyngesi Ffraingc a Lloegr yn awr yn y Bosphorus, a rhan o honynt, dywedir, yn cadw gwyliadwriaeth yn y Môr Dû. Beth a wneir yn ychwaneg yn yr achos hyn gan Ffraingc a Lloegr, a geir ei weled yn mhen ychydig o wythnosau.

Nid yw y Rwssiaid wedi cael eu gyrru allan o Wallachia. Braidd y gellid disgwyl hyny ar yr amser hyn o'r flwyddyn, pe bai y Tyrciaid yn gryfach nag y maent. Ond darfu i'r Tyrciaid lwyddo i groesi y Danube mewn dau neu dri man. Deallwn fod rhan o'u byddin etto yn Kalafat y tu gogledd i'r afon; ac er fod Omar Pacha wedi gweled yn gymwys i adael Oltenitsa, ac adgroesi y Danube; yn y frwydr a fu yno ar y 4ydd o Dachwedd, cafodd y fuddugoliaeth ar y Rwssiaid, y rhai a laddwyd wrth y cannoedd, heb ond ychydig o golled i'r Tyrciaid. Yn Asia hefyd, ar ororau y Môr Dû, hyd yn hyn, y mae Rwssia wedi bod yn colli tir, a'r Tyrciaid yn fuddugoliaethus.

Wythnosau yn ol llwyddodd y Tyrciaid i gymeryd meddiant o *Fort Saint Nicholas*, amddiffynfa o gryn bwys ar gyffiniau deheuol Rwssia yn Asia. Y mae'r newyddion diweddaf o Constantinopl, dyddiedig y 17eg o Dachwedd, yn hysbysu fod y Rwssiaid, er taer ymdrechu bum gwaith, oddiar y môr a'r tir, i adgymeryd yr amddiffynfa, wedi methu yn lân bob tro, gyda cholled o lawer o gannoedd o wŷr. Dywedir fod miloedd lawer etto o filwyr yn barod i gychwyn o'r Aipht tua maes y rhyfel, i fod yn gyfnerth i'r Sultan; a bod yr Affganiaid a gwŷr Bokhara yn ymbarotoi i ryfela yn erbyn y Rwssiaid. Beth a wna Persia sydd ansicr. Ac y mae sefyllfa Servia, gwlad gymydogaethol ag sy'n talu teyrnged i Twrci, ond yn meddu ar hunan-lywodraeth, oddieithr ar rai amddiffynfaoedd Tyrcaidd ar ei chyffiniau, yn peri anesmwythder yn bresenol i lywodraeth y Sultan; rhag ofn iddynt orfod caniatau i'r fyddin Rwssiaidd i groesi y Danube uwchlaw Widdin, a myned trwy Servia, i ymosod ar y Tyrciaid. Y mae llawenydd mawr yn Constantinopl o herwydd y buddugoliaethau ar y Danube ac yn Asia. Ac y mae y Sultan wedi rhoddi ei farch goreu yn anrheg o barch i Omar Pacha.

Y mae General Klapka, yr hwn a hynodd ei hun trwy ei fedr a'i wrolder yn amddiffyniad Comorn ar ddiwedd y rhyfel Hungaraidd, yn awr yn Constantinopl.

Cyrhaeddodd General Baraguay d' Hilliers, cenhadwr Ffraingc, yno, ar y 15fed o'r mis diweddaf; a chafodd ei dderbyn gyda charedigrwydd a groesaw neilldnol; ac oddiwrth hyny gellir casglu fod ei gennadwri yn cynnwys addewidion o gyfnerth wrth raid.

Priodasau.

Tach. 9, yn Llanfihangel Ystrad, Ceredigion, gan y Parch. E. Evans, Mr. Daniel Jenkins, Clyndu, Llanwenog, a Miss Elizabeth Evans, Maesmynach, Ystrad.

Wrth allor llan, Dan wnawd uno—â'i lwys
Eliza, hyd amdo:
Ardduniant, gwir fwyniant fo,
Yn eiddynt—Duw a'u noddo.

D.T.

Tach. 18fed, y Parch. Titus Evans, gweinidog Rhydypark ac Onnenfawr, a Rachel, ail ferch y Parch John Jeremy, gweinidog ymhlith yr Undodiaid, trigianol yn Llanbedr, Ceredigion.

ATTEBIAD I OFYNIAD C. J., MARCROSS; Rhif. Mai, tud. 123.

Syr,—Gan yr ymddengys fod y gofyniad hwn yn rhyw fodd wedi methu tynu sylw neb o'ch gohebwyr medrus hyd yma, cymhellwyd fi i anfon yr attebiad canlynol iddo, gan obeithio y rhydd foddhad i'r gofynydd ac i ereill o'ch darllenwyr rhifyddegol.

Yr eiddoch,
J. Morgan.

Trwy gymeryd y pellderau rhwng y ddau ddyn ar gylchoedd cyfrochrol (*parallel*) â'r cyhydedd, ceir mai 5657,9449 o filldiroedd yw tryfesur y cylch a amgylchyna y ddaear yn y fan [trwy y ddau fan?] lle y dechreuasant eu taith; ac yn ganlynol mai 44 gradd. 22 mun. 38 eil. yn agos, yw, y lledred oeddent ynddo cyn cychwyn. yn yr un modd ceir mai 50 gradd. 54 mun. yn agos yw y lledred oeddent ynddo ar ddiwedd eu taith. Ac felly, mai 519 milldir oedd y pellder a deithiasant. A chan fod gradd o hydred yn cyfatteb i 4 munyd, *amser* y gwr nesaf i'r gorllewin fydd 52 munyd wedi lleg.

[Fe wel y cyfarwydd fod yr attebiad uchod yn cymeryd yn ganiataol fod y ddau ddyn yn yr un lledred ar ddechreu eu taith, ac iddynt deithio yr un faint o ffordd. Ond nid yw gofyniad C. J. yn dywedyd hyny yn eglur; er, o bosibl, mai dyna yr hyn ydoedd yn ei feddwl.—Gol.]

Barddoniaeth.

ENGLYNION I DDYN CELWYDDOG.

Cilia o lwybrau y celwydd—ar fyr,
A'i fwriad aflonydd;
Canys braw a ddaw ryw ddydd,
O'i ddilyn i'w addolydd.

O fradwr, dy hyfrydwch—yw gyru,
Y geirwir i dristwch;
A gwar haddef, gwir heddwch,
Yn annghydfod trallod trwch.

Hyllig yw bloedd dy holl gableddau,
—gwael
Yw dy goeg haeriadau;
Rhyw ddychmygion gweigion gau,
Uthr geimion, yw'th rigymau.

Yr hyll greadur llygredig—eirias
Yw'th araeth chwyddedig:
Mae'th fron aflan gan dân dig,
Fal ffwrn o ufel ffyrnig.

Rho dy fryd o hyd ar hedd—a pharcha
Hoff eirchion y Mawredd,
Gwna fawrhau hyd bau y bedd,
Y gair anwyl, gwirionedd.

D. T., *Ceredigion.*

Mr, YMOFYNYDD,—Addewais yn Rhagymadrodd *Cwyth Dyffryn Clettwr*, argraphu ba beth bynag a allwn gael yn ychwaneg o waith AMNON. Wele i chwi *Gan i'r Hydref* a wnaeth tua'r flwyddyn 1828. Cefais hi gan gyfaill allan o *Seren Gomer.*

Ydwyf, &c.

Aberdâr. J. JONES.

I'R HYDREF.

RHYW ddydd wrth deithio'r bryniau draw,
I'm bron daeth braw a galar,
Drwy weled *Hydref* llym a'i gledd,
Yn newid gwedd y ddaear.

Galarwisg dros y bryniau dân,
A'r caeau'n anrheithiedig;
Cantorion ffodd, dystawodd têr
Ganiadau pêr y goedwig.

A mwg y tai fydd yn y mân
Yn rhewi gan oer awyr;
A'r llwydrew yn gorchuddio tai,
Y dyffryn a'i breswylwyr.

Er awel lem yn lle hin glaer,
Ac amdoi'r ddae'r âg eira,
Ar fyr, er huno, etto hon
Yn hynod lon ddihuna.

Daw oriau mwyn y Gwanwyn gwâr,
Ymwisga'r dda'r a'i chynnyrch,
O ryw flodeuog wisgoedd gwiw,
Fo'n hardd eu lliw a'u llewyrch.

A phob aderyn wrth ei chwant,
Yn hwylio'i dant i ganu,
Ar frig y pren îs deilen lâs,
Gan addas gynghaneddu.

Ond pan ddêl Hydref einioes dyn,
O glun i glun f' ymdeithia,
Yn oer ei lais, ei gais a'i gwyn,
Ei Wanwyn mwyn ddymuna.

Mor hoff y cofia ar bob pryd,
Ei hoywlon ie'nctyd hylwydd;
Pan redai heb gynnorthwy ffyn
I ben y bryn yn ebrwydd.

Pan wel yr ie'nctyd teg eu pryd
Ar hyd y byd yn rhodio;
Gwna cof am Wanwyn heulog des
I'w fynwes gynnes gwyno.

Er syllu'n bwyllog ffordd yr êl,
Un peth ni wel, er chwilio
O fewn cyffiniau hyn o fyd,
Yn addaw ie'nctyd iddo.

Os edrych ar yr Hydref wnaf,
Y cyfan gâf yn darfod,
Gan uchel waeddi nad yw'n wir
Is haul fy hir breswylfod.

Ond o'i drugaredd rhoddodd Duw
I ddynol-ryw ddatguddiad,
Drwy'i anwyl Fab y cânt yn glau
O'u beddau adgyfodiad.

O boed fy mryd ar rodio mwy
Y nefol lwybrau'n ddiball,
Fel b'wyf wrth deithio ar bob cam,
Hyderus am fyd arall.

Yn wastad daioni estyn—dy law,
Dy lais pwy na'i edwyn;
A thi'm Ion yn mhob gronyn,
Yn gwenu ar deulu dyn.

Nantremenyn. R. JONES.

Diwedd Cyfrol VI.

PEN-Y-BONT ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.